3. Golygu *Peredur*

3.1 Camau golygyddol

Mater o raddfa yw'r gwahaniaethau rhwng golygyddion o ran y modd y newidiwyd testunau rhyddiaith Cymraeg canol wrth eu golygu ond fe'u hynodir i gyd gan effeithiau gweithredu dwy egwyddor sylfaenol: ychwanegu'r disgwyliedig absennol a diwygio'r annisgwyl presennol. Un o effeithiau'r cyfnewidiadau hynny yw peri i ieithwedd testun ddod yn fwy 'darllenus' eithr fel y dadleuwyd uchod gall hynny ddylanwadu hefyd ar y testun ei hun. Egwyddor lywodraethol i'r golygiad hwn, felly, yw na newidiwyd dim ac eithrio'r ysgrifen, dulliau rhannu ymadroddion yn eiriau (nodweddion y gellir eu holrhain o droi at olygiad Evans (1907)), a'r confensiynau a nodir yn 3.2 heb arwyddo hynny i'r darllenydd. Y bwriad yw caniatáu i'r darllenydd adfer y darlleniad gwreiddiol wrth ddarllen heb ei orfodi i chwilio a chwalu mewn cladd o nodiadau.

3.2 Confensiynau nas atgynhyrchwyd

Elfennau sy'n rhannau annatod o'r testun gwreiddiol ac a fyddai'n sicr o ddylanwadu ar ymateb darllenwyr iddo ym mhob cyfnod yw'r ysgrifen, y rhuddellu, a'r cynllun colofnog. Er bod y rhain yn cyfleu gwybodaeth ddiwylliannol, nid ydynt yn hanfodol ar gyfer deall y testun ac ni cheisiwyd eu hatgynhyrchu yn y golygiad hwn. Am yr un rheswm y peidiwyd ag atgynhyrchu |2| a |ſ| , sef allgraffau anghyfarwydd i <r> ac <s> nad ydynt yn cyfleu unrhyw wybodaeth ieithyddol. Ond fe berchir y gwahaniaeth rhwng <w> ac <6> am mai graffemau annibynnol ydynt yn *Peredur*, <w> yn tueddu i gyfleu /w/, ac /6/ yn tueddu i gynrychioli /u/ (2.10).

3.3 Paragraffu ac atalnodi

Cyfleu'r testun yn fformat llinellog, colofnog a rhedegog y llawysgrif a wnaeth Gwenogvryn Evans (1907). Fel yn y llawysgrif, nid oes dim yn torri ar lif y naratif ar wahân i'r ddwy <A> estynedig sy'n cyflwyno'r fformiwla *Arthur a oed ygkaer llion ar *ysc…* Pegwn eithaf diweddaru nofelaidd a gynrychiolir gan olygiad Goetinck (1976): paragraffau bach byr, llinell newydd wedi ei hindentio pan fydd cymeriad yn llefaru, ac atalnodi a phriflythrennu modern. Nid y diwyg llawysgrif-ganolog, gwrthrychol a'r un creadigol, goddrychol yw'r unig rai posibl, wrth gwrs: gellid rhannu'r testun yn baragraffau cymharol syml fel y gwnaeth Ifor Williams wrth olygu'r Pedair Cainc, neu ychwanegu penawdau yn null Simon Evans. Ond un o fwriadau'r golygiad hwn yw peidio â chaethiwo'r testun â chonfensiynau llurguniol anachronistig ond caniatáu, yn hytrach, i'r testun ei hun lefaru drwy gyfrwng ei strwythurau cynhenid. Nid rhaid edrych

ymhell am arweiniad. Gan mai testun brodorol ydyw, un o briodoleddau *Peredur* yw'r fformiwlâu sy'n ei fritho ac yn ei dorri'n episodau bychain. Mae yma ddau fath o fformiwla. Agor prif episod y bydd y cyntaf, a ddiffinnir gan gyfeiriad at yr arwr yn cychwyn ar daith, e.e.

Ac ynteu peredur a gerda6d racda6 y ymdeith (ll. 176)
Ynteu peredur a gychwyn6ys ymdeith (ll. 181)
Odyna kychwynnu a oruc peredur . (ll. 398)

Weithiau fe amrywir drwy sôn am y bore, sef yr adeg orau i gychwyn ar antur ganoloesol, e.e.

Pan doeth y dyd gyntaf kyfodi a oruc peredur a chymryt y varch . A chan ganhat y ewythyr kych6yn ymdeith . (ll. 215-6)
Tranoeth y bore peredur a gyfodes y vynyd a chan ganhat y ewythyr kychwyn racda6 y ymdeith . (ll. 215-6)

Cyflwyno'r antur nesaf y bydd pob prif olyniad o'r fath ac os bydd yr episod yn estynedig fe'i hatalnodir ag *Ar hynny…* neu fformiwla amseryddol arall (a all gyflwyno gweithred gan is-gymeriad). Sylwer ar y gyfres ganlynol:

Ynteu peredur a gerd6ys racda6 ymdeith (ll. 295)
Ar hynny llyma was melyngoch achul ar y b6lch vch y pen . (ll. 300)
Ar hynny llyma pump mor6yn yn dyfot o ystafell y'r neuad . (ll. 309)
Ar hynny kyfodi a wnaeth y vor6yn y vynyd (ll. 334)
Trannoeth y bore kyfodi a wnaeth y vor6yn (ll. 355)
A phryt na6n parth a diwed y dyd . ef a doeth marcha6c arbennic y ymwan ida6 . (ll. 365-6)
Trannoeth y bore peredur a gyrch6ys y weirgla6d . (ll. 376)
A'r trydyd dyd y doeth peredur y'r weirgla6d . (ll. 384)
Odyna kychwynnu a oruc peredur (ll. 398)

O indentio olyniadau sy'n dechrau â phrif fformiwla un cam i'r dde, ac olyniadau sy'n dechrau ag is-fformiwla ddau gam i'r dde, fe amlygir y rhaniadau naturiol hyn yn y testun. Canlyniad arall i'r dechneg baragraffu hon yw cyfaddawdu â'r darllenydd modern, a gyflyrwyd i ddisgwyl y bydd ddarn o ryddiaith wedi ei rannu'n baragraffau ac a all ddiflasu os wynebir ef â thudaleneidiau o ryddiaith ddi-dor.

3.4 Ychwanegu'r disgwyliedig absennol: Ehangu fformiwlâu

Un o effeithiau pwyso ar dystiolaeth gymharol oedd i Goetinck (1976) ychwanegu rhai elfennau y tybid eu bod wedi eu hepgor. Enghraifft o hynny yw'r [hir] yn yr olyniad cyntaf isod:

'p6y y marcha6c paladyr [hir] a seif yn y nant uchot' (ll. 452; HP 31.5)
p6y y marcha6c paladyr hir. a seif yn y nant uchot$ (J111 211.21-2)
pwy y marchawc paladyr hir racwn. (P7: HP 169.32)

Ond 'marchog paladr' – ymadrodd cwbl ystyrlon – yw Peredur yn y Llyfr Gwyn, a dyna a fu dros y canrifoedd.

Ymadrodd fformiwlaig nas ceir ond yn y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch (deirgwaith yr un) yw *tros pedrein y varch yr lla***r*. O gofio am y fformiwla honno (y ceir un enghraifft ohoni ychydig linellau ynghynt), ac yng nghyddestun y clwm enghreifftiau o hepgor sy'n amheus o agos at l. 460, hawdd cydymdeimlo â Goetinck am ychwanegu [pedrein] golygyddol yn y cyddestun isod: (HP 31.18):

> y wan ar vn gossot tros [pedrein] y varch y'r lla6r . (P4: ll. 460)

Ond mae hynny'n gyfystyr â pheri i ragweladwyedd tybiedig draarglwyddiaethu ar ffurf y naratif. Mae'r geiriad yn ystyrlon fel y mae.

Tuedd isorweddol nas ffurfiolwyd ond sydd er hynny'n llywio'r diwygiadau uchod yn HP yw bod yma ymgyrch i wadu ei hunaniaeth ei hun i *Peredur* y Llyfr Gwyn. Er na ddatgenir hynny, proses a amlygir o dro i dro yng ngolygiad Goetinck yw ysfa am adlunio'r testun perffaith. Ond prin y gallai ymgais o'r fath fyth ymgodi uwchlaw'r rhannol a'r goddrychol.

3.5 Diwygio'r presennol annisgwyl: Cyfnewid geirfa

Cwbl nodweddiadol o fersiynau gwahanol o'r un testun sylfaenol yw bod Pereduron y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch yn gwahaniaethu o bryd i'w gilydd o ran eu dewis o air neu ymadrodd.[1] Enghraifft drawiadol o'r fath yw <d6yla6> yn y Llyfr Gwyn yn cyfateb i <d6y ael> yn y Llyfr Coch (205.29) yn y disgrifiad o'r forwyn hyll (ll. 309-14):

> diheu oed gantha6 na welsei dremynt kymryt eiroet a hi ar arall . henwisc o bali t6ll ymdanei a uuassei da . yn y g6elit y chna6t tr6ydda6 . g6y|nach oed no bla6t y crissant g6ynhaf . y g6allt hitheu a'e d6yla6 duach oedynt no'r muchyd…

Sbardunodd tystiolaeth gymharol y Llyfr Coch a Pheniarth 7 (<dwy ayl> HP 165.36) i ddiwygio geiriad y Llyfr Gwyn. Ond mae <d6yla6> yn gwbl ystyrlon, ac anodd gweld bod ei newid yn ychwanegu at y disgrifiad.[2]

3.6 Gwallau'r ysgrifydd

Darn o Gymraeg canol y bedwaredd ganrif ar ddeg yw *Peredur* ac fel unrhyw destun o unrhyw gyfnod, y mae'n ymgorffori sawl math o wybodaeth, gan

[1] Rhoddir nifer o enghreifftiau gan R. M. Jones (1973), Davies (2000) a Thomas (2000). At y rheini mae'r isod yn nodedig am ei fod yn cyflwyno arlliw gwahanol i'r disgrifiad o Beredur yn ymladd â Chei (ll. 460-4):

> Ynteu gei a doeth atta6 ef ac a dywa6t yn disgethrin anhygar 6rth peredur . A pheredur a'e kymerth a g6ay6 dan y d6yen . Ac a'e byry6ys ergyt ma6r y 6rtha6 hyny torres y vreich a g6ahell y ysc6yd . / a marchogaeth vn weith ar hugeint drosta6$ (RM 212.6) /A thra yttoed ef yn y var6lewic rac meint y dolur a ga6ssei yd ymhoela6d y varch a thuth gra6th gantha6 .

[2] Enghraifft ymddangosiadol arall yw <emwisc> y Llyfr Gwyn (Evans 1907: 162.26) yn cyfateb i <eur wisc> y Llyfr Coch (229.19). Eithr dangosodd yr Athro Thomas Jones (1948: 83) mai cynnyrch 'llaw rhyw adluniwr a aeth dros yr ysgrifen wan wreiddiol' yw <emwisc>: 'Oddi tano y mae olion *r* i'w gweld o hyd, a gellir yn hyderus adfer y darll. gwreiddiol *eurwisc* fel yn R. M.'

gynnwys gwallau, a all dystio am broffesiynolrwydd yr ysgrifydd neu'r amodau y gweithiai odanynt. Mae'n ddigon sicr, er enghraifft, mai ailadrodd <ed> y rhagoben a arweiniodd at ysgrifennu <enryfededeu> (ll. 1044) yn hytrach nag <enryfedodeu> 'rhyfeddodau mawr'. (Ail bosibilrwydd, ond llai tebygol, yw mai camddarllen <o> a wnaethpwyd.) Llai pendant yw'r ysgogiad dros <y yaf6yneu> (ll. 480) yn hytrach nag <y af6yneu> 'ei ffrwynau'. Dengys parau fel /ja:d, a:d/ 'iad, corun' a /javi, avi/ 'afu' y gall /j/ ddechreuol amrywio o dafodiaith i dafodiaith; ni allwn fod yn sicr, felly, nad cynrychioli ffurf dafodieithol yr oedd <yaf6yneu>.

Ar dro bydd yr ysgrifydd yn cynhyrchu olyniad gramadegol gywir sy'n tystio nad yw'n canolbwyntio ar ei dasg. Enghraifft ddadlennol o hynny yw peri i'r Forwyn Ddu gynghori Peredur i ladd yr Ymerodres:

> Mae yno 6r du yn diffeitha6 llawer o gyfoeth yr amherodres *;* A llad honno . ti a gaffut y cla6r . (ll. 1126-7)

Nid yr Ymerodres, wrth gwrs, ond y gŵr du oedd gwir darged Peredur eithr nid hawdd i newyddian i'r testun o unrhyw gyfnod sylweddoli hynny ar y darlleniad cyntaf.

Bydd geirfa anghyfarwydd o unrhyw gyfnod yn peri i ddarllenydd oedi wrth ddarllen testun ac ar un wedd nid yw <enryfededeu> a <yaf6yneu> yn ddim ond geiriau dieithr. Os cyflyrant bendroni, felly, onid yw hynny'n rhan o brofiad darllen testun newydd? Gan na allwn ragdybio ein bod yn gwerthfawrogi arwyddocâd pob amrywyn rhaid gochel rhag dileu tystiolaeth y gall dadansoddwyr y dyfodol sylweddoli ei gwerth. Gan hynny, gadawyd y cyfeiliornadau hyn a'u tebyg heb eu newid yn y golygiad presennol, ond cyfeirio sylw'r darllenydd atynt yn y nodiadau gyferbyn.

3.7 Egwyddorion golygu

Fel y ceisiwyd dangos uchod, ymgais sydd yma i gadw cydbwysedd rhwng diogelu amryfal negeseuon y testun a hwyluso'i ddarllen yn y cyfnod presennol. Wrth geisio gwneud hynny llywodraethwyd y golygu gan yr egwyddorion cyffredinol canlynol.

1. *Paragraffu*

Fformiwlâu'r testun sy'n llywio'r paragraffu. (Nid oes swyddogaeth destunol i'r addurn sy'n ymdebygu i <!> a ddefnyddir gan yr ysgrifydd i lenwi bwlch ar ddiwedd llinell, ac nis atgynhyrchir yma.)

2. *Rhannu geiriau*

Rhennir geiriau yn unol â chonfensiynau'r cyfnod diweddar ac eithrio pan fydd olyniadau'n amwys neu'n amlygu datblygiad ieithyddol. Pan fo gair yn ymestyn dros ddwy linell ac y gallai hynny fod wedi effeithio ar ei sillafu neu ei gynrychioliad, fe ddynodir ffin y llinell â < \| >. Y mae

golygiad Evans (1907) yn caniatáu gweld ei ddehongliad ef o'r rhaniadau gwreiddiol os dymunir gwneud hynny.

3. *Priflythrennau ac atalnodau*

Perchir priflythrennu ac atalnodi'r testun. Ystyrir mai cam anachronistig a ddinistriai strwythur y gwreiddiol fyddai diwygio'r llythrennau hynny ac atalnodi'n ddiweddaraidd. Yr unig atalnod a gyflwynwyd yw < · >, a hynny er mwyn dynodi rhaniad synnwyr a allai fel arall fod yn dywyll.

4. *Rhuddellu*

Ni ddangosir rhuddellu. Gellir gwneud hynny mewn fersiwn ar ddisg.

5. *Collnodau*

Ychwanegir collnodau yn unol â chonfensiynau'r cyfnod diweddar. Gall hyn ddeillio o rannu geiriau, e.e. pan droir <oe> yn <o'e> 'o'i'. Cyfaddawd â'r darllenydd modern yw hyn a chyfnewid hawdd ei wyrdroi os mynnir.

6. *Dyfynodau*

Gan y gall araith union a chyfnewid siaradwyr ddigwydd yn ddirybudd defnyddir dyfynodau i ddynodi araith union er mwyn dileu amwysedd. Eto, gellir dileu'r nodau hyn os mynnir ymglywed ag ieithwedd y gwreiddiol.

7. *Diwygio geiriau ac ymadroddion cyflawn ac ystyrlon*

Ni chyflwynir geiriad testun canoloesol arall i'r testun hwn. Gan hynny, os cynhyrchodd yr ysgrifydd olyniad cywir, yr olyniad hwnnw sy'n gywir. Pan gyfarfyddir ag elfen annisgwyl neu anodd ei dehongli, fe nodir hynny ar y ddalen gyferbyn.

8. *Elfennau coll*

Nid ychwanegir dim at y testun onid ystyrir ei fod yn gwbl amlwg beth yw'r elfen goll (e.e. <marcha6[c]> 'marchog') neu'n gwbl angenrheidiol er mwyn deall y testun.[3] Yn hynny o beth cafwyd arweiniad gan destun y Llyfr Coch, sydd bron yn unfath o linell 469 ymlaen. Dynodir yr ychwanegiadau prin hyn â bachau petryal. Ychwanegir rhifau ffolios y Llyfr Gwyn hefyd rhwng bachau petryal er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i gymharu'r golygiad presennol ag eiddo Gwenogvryn Evans ac â'r llawysgrif.

9. *Byrfoddau*

Trafodir a disgrifir y byrfoddau yn yr ail adran a'u hehangu yn y testun.

[3] Yr unig eithriadau i hyn yw <marcha6c ar bumthec> ll. 177, a ddarllenwyd gan Evans (1907) ond na allwn i ei weld, a'r rhan o ymyl gwaelod colofnau 118 ac 119 (sydd gefngefn), sydd bellach wedi diflannu. Nid yw hanes y man hwn yn hysbys i mi eithr ymddengys i Evans (1907) ddilyn llythrennau a ysgrifennwyd gan law ddiweddarach dros rai a aethai'n anodd eu darllen; ni allaf ond tybied i'r rhain gael eu dileu pan atgyweiriwyd y llawysgrif yn 1940. Dilyn golygiad Evans a wneuthum yma hefyd.

10. *Nodiadau*

Nid amherir ar y testun drwy gyflwyno uwch-sgriptiau golygyddol. Yn hytrach, glosir nodweddion y tybir eu bod yn mynnu sylw ar y ddalen gyferbyn â'r testun. Yn lle trafod pwyntiau unigol mewn nodiadau gwasgar pan gyfyd y materion hynny, fe'u carfenir at ei gilydd mewn pennod bwrpasol (Adran 2).